Llwybr Arfordir
Casnewydd





Mannau o Ddiddordeb

1. Redwick
2. Whitson
3. Morglawdd Allteuryn a'r Priordy
4. Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Casnewydd
5. Goleudy Dwyrain Wysg
6. Canolfan y Gwlyptiroedd
7. Gwarchodfa Dolydd Great Traston
8. Adfer Llong Ganoloesol Casnewydd
9. Golygfa o'r Dociau
10. Pont Gludo Casnewydd
11. Pont y Ddinas (SDR)
12. Oriel Gelf ac Amgueddfa Casnewydd
13. Pont Gerdded Dinas Casnewydd
14. Theatr Glan-yr-Afon a'r Ganolfan Gelfyddydau
15. Y Don Ddur
16. Castell Casnewydd
17. Tŷ Tredegar
18. Goleudy Gorllewin Wysg
19. 'The Gout' yn Llan-bedr Gwynllŵg
20. Eglwys Llanbedr Gwynllŵg

A4042 · A4051 · A48 · M4 · A4048 · B4239

A Caerllion · B Fourteen Locks · C Coed Gwent

Gorsaf Trenau · Dinas Casnewydd · Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd · Blaina Wharf · Gwesty a Bistro Waterloo · Pont Gludo · Atgyweiriad Llong Casnewydd · Fanny's Rest Stop · Ty Tredegar · Ty Gwestai Brick House · Redwick · Tafarn y Rose · Tre'ronnen · Tafarn Waterloo · Canolfan y Gwlyptiroedd · Allteuryn · Tafarn Farmer's Arms · Whitson · Ystafelloedd Te y Morglawdd, Allteuryn · Goleudy Gorllewin Wysg · Llansantffraid · Tafarn Lighthouse, Llansanffraid · Y Maerun · Safle Gwersylla a Charafannau Ty Coch · Parc Fferm Walnut Tree · Clwb Golff Peterstone Lakes · Llan-bedr Gwynllŵg · Tafarn Six Bells

Milltiroedd 00 .5 1
Cilomedr 00 .5 1

- Llwybr Arfordir Casnewydd
- Taith Gerdded Dyffryn Sirhywi
- Llwybr Cyswllt i Daith Gerdded Dyffryn Sirhywi
- Taith Gerdded Dyffryn Wysg
- Llwybr Cyswllt i Daith Gerdded Dyffryn Wysg (yn cael ei adeiladu)
- Ffin Casnewydd
- Croesfan y Bont Gludo
- Let's Walk Newport www.newport.gov.uk/countryside

- Fforestydd
- Ardaloedd trefol
- Gwastadeddau Gwent (SoDDGA*)
- Afon Wysg (SoDDGA*)

*Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

- Arwyddbost Llwybr Arfordir Cymru
- Canolfan Croeso Lleol
- Toiledau
- Bwyd a Diod
- Llety
- Safle Gwersylla a Charafannau
- Tafarn
- Parcio (am ddim) P (tâl)
- Cwrs Golff

Pan fyddwch yn cerdded, cyfeiriwch at Fap OS 152 Casnewydd a Phont-y-pŵl

www.newport.gov.uk/visiting

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Newport City Council
Cyngor Dinas Casnewydd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Tybir bod pob gwybodaeth yn gywir adeg argraffu. Ni allwn fod yn gyfrifol am unrhyw newidiadau i'r daith gerdded neu'r mannau o ddiddordeb a gynhwysir yn y llyfryn hwn.
Oes oes gennych ymholiad ynghylch y cynnwys neu'r ffotograffau cysylltwch â: 01633 656656.

Goleudy Gorllewin Wysg i Wastadeddau Gwynllŵg

17 Tŷ Tredegar

Yn ogystal â bod yn un o ryfeddodau pensaernïol Cymru, mae Tŷ Tredegar hefyd yn un o blastai mwyaf arwyddocaol o ddiwedd y 17eg ganrif ym Mhrydain gyfan. Mae'n adeilad rhestredig Gradd I sydd wedi'i leoli mewn parc prydferth 90 erw.

Roedd y teulu Morgan yn byw ar safle Tŷ Tredegar o 1402 ymlaen, ond mae rhan hynaf yr adeilad a welwn heddiw yn dyddio o ddiwedd y 15fed Ganrif. Fe'i adeiladwyd
yn wreiddiol o garreg, ac fe'i ailadeiladwyd yn sylweddol rhwng 1664 a 1672 o frics coch, a oedd ar y pryd yn ddeunydd adeiladu prin a drud.

18 Goleudy Gorllewin Wysg

Mae Goleudy Gorllewin Wysg ar y morglawdd i'r de o Lansanffraid. Fe'i adeiladwyd yn 1821 gan y pensaer o'r Alban, James Walker. Hwn oedd y cyntaf o 22 goleudy a adeiladwyd ganddo. Roedd y goleudy ar ei ynys ei hun hyd 1856 pan gafodd y tir o'i amgylch ei adennill. Roedd yn weithredol fel goleudy i rybuddio llongau tan 1922 pan gafodd ei ddadgomisiynu. Er 1989 mae Goleudy Gorllewin Wysg wedi bod yn wely a brecwast.

19 'The Gout' ger Llan-bedr Gwynllŵg

System falf glep llanw syml yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd gan y Rhufeiniaid bron 2000 mlynedd yn ôl sydd yma. Mae dŵr croyw o'r ffosydd a'r rhewynau'n mynd drwy'r morglawdd pan fo'r llanw'n isel drwy falf glep ac allan i'r môr. Pan ddaw'r llanw i mewn, mae dŵr y môr yn gwthio yn erbyn ochr arall y falf ac yn ei chau. Mae'r dŵr croyw ar ochr arall y mur yn cronni dros dro yn y ffosydd nes i'r llanw droi a chilio. Mae pwysau'r dŵr croyw wedyn yn gwthio'r falf ar agor unwaith eto – gan ddraenio i'r môr tan y penllanw nesaf.

20 Eglwys Llan-bedr Gwynllŵg

Cartref preifat yw Eglwys Llan-bedr Gwynllŵg erbyn hyn ond mae'n dal i edrych fel eglwys drawiadol o'r 15fed Ganrif. Credir ei bod wedi darparu lloches i bobl leol rhag Llifogydd Môr Hafren yn 1607.

Safleoedd o ddiddordeb ger Casnewydd

A Caerllion

Roedd yr Ail Leng Awgwstaidd Rufeinig wedi meddiannu Caerllion yn OC75. Mae'r canlynol wedi goroesi: rhannau o fur y gaer; yr amffitheatr a arferai fod yn ddigon mawr i'r lleng cyfan - 6,000 o wylwyr; olion adeiladau'r gwersyll Rhufeinig a baddonau'r gaer a fyddai wedi bod yn ganolfan hamdden y llengfilwyr gydag ystafelloedd newid wedi'u gwresogi, pwll a champfa. Mae rhai pobl yn credu mai Caerllion oedd Camelot y Brenin Arthur. I gael manylion oriau agor a rhagor o wybodaeth, ewch i www.newport.gov.uk/visiting neu cyfeiriwch at Let's Walk Newport 5 Taith Gylch Lodge Hill

B Fourteen Locks

Mae Canolfan Gamlas Fourteen Locks yn dathlu camp beirianyddol Thomas Dadford ar ddiwedd y 18fed Ganrif. Creodd Dadford gyfres o lociau i godi lefel y dŵr yng Nghamlas Sir Fynwy 160 troedfedd dros bellter o ddim ond 800 llath. Dyma un o'r codiadau mwyaf serth ym Mhrydain, a phan gaiff ei gyfuno â'r llu o lociau mewn ardal fach, dyma un o'r rhai mwyaf sylweddol a thrawiadol yn y wlad. I gael manylion am oriau agor a gwybodaeth ewch i www.fourteenlocks.co.uk
neu cyfeiriwch at Let's Walk Newport 1 Taith Gylch Fourteen Locks

C Coed Gwent

Coed Gwent yw'r fforest fwyaf yng Nghymru gyda 1000 o hectarau o goetir di-dor a hanes sy'n rhychwantu dros 1000 o flynyddoedd. Mae'n gartref i geirw, pathewod, gwiberod, madfallod a morgrug y coed, yn ogystal â thros 130 o rywogaethau adar. Ceir llwybrau cerdded, llwybrau ceffyl a llwybrau beicio o amrywiol hyd ag arnynt arwyddion amlwg felly mae bron yn amhosibl mynd ar goll. Ceir ardaloedd picnic, cyfleusterau barbeciw, ardal chwarae i blant, cwrs antur a golygfeydd godidog o'r gronfa ddŵr a Môr Hafren.

Teithiau Cerdded Eraill

Taith Gerdded Dyffryn Wysg Taith 48 milltir (77km) rhwng Caerllion ac Aberhonddu drwy Ddyffryn Prydferth Wysg a fydd yn cymryd tua 4 diwrnod i'w chwblhau.

Taith Gerdded Dyffryn Sirhywi Taith 26 milltir (42km) gan ddechrau yn Sirhywi (ger Tredegar) a gorffen yn Nhŷ Tredegar yng Nghasnewydd. Ceir golygfeydd godidog o fynyddoedd, ffermydd yr ucheldir a'r iseldir a chyrion y dref ar hyd y daith.

Llwybr Arfordir Casnewydd



O Redwick i Dre'ronnen

1 Redwick

Redwick yw'r pentref canoloesol sydd wedi goroesi orau ar Wastadeddau Gwent. Adeiladwyd y pentref ar ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg fwy na thebyg ac nid yw ei gynllun wedi newid bron ddim ers hynny.

Mae'n werth ymweld â'r eglwys, sef eglwys Sant Tomos yr Apostol. Ymysg ei nodweddion unigryw mae cerfluniau carreg canoloesol, bedyddfan o faint llawn ac mae ei bedyddfaen yn dyddio o'r 13eg Ganrif. Daw dwy o'r chwe chloch yn y tŵr canol o'r cyfnod cyn y Diwygiad a chredir mai dyma rai o'r clychau eglwys hynaf sy'n dal i gael eu defnyddio yng Nghymru.

2 Whitson

Mae'r tai a'r ffermydd yn Whitson gryn bellter o fin y ffordd mewn stribedi hir o borfeydd. Adlewyrcha batrwm dyrannu tir canoloesol. Cynlluniwyd y tirlun rhyfeddol hwn rhwng yr 11eg ganrif a'r 13eg ganrif, o bosibl gan y mynachod yn Allteuryn.

Mae "Ffos y Mynachod", sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel "Ffos Allteuryn", yn mynd drwy ganol y pentref ar ei ffordd i'r môr. Mae'r ffos yn cario dŵr o ffrwd yn yr ucheldir i'r arfordir, gan atal y dŵr ffres rhag gorlifo'r gwastadeddau. Cofnodwyd hyn i ddechrau yn y 13eg Ganrif ac fe'i hadeiladwyd fwy na thebyg gan y mynachod yn Allteuryn.

3 Morglawdd Allteuryn a'r Priordy

Disgrifiwyd Allteuryn gan Gerallt Gymro, a fu'n teithio o amgylch Cymru yn 1188, yn Lladin fel 'lle sy'n disgleirio â llewyrch rhyfeddol'.

Cafodd Allteuryn (Goldcliff yn Saesneg) ei enwi ar ôl clogwyn calchfaen, tua 60 troedfedd o uchder, a arferai godi uwchlaw gwely enfawr o fica melyn a oedd yn ymddangos fel pe bai'n disgleirio yn yr haul, yn enwedig i'r llongau a oedd yn teithio ar Fôr Hafren.

Ynys oedd Allteuryn nes i'r morglawdd gael ei adeiladu. Yn 1113OC rhoddodd Arglwydd Normanaidd Caerllion briordy i'r Benedictiaid a adeiladwyd ar ynys Allteuryn. Yn ogystal rhoddwyd y tir o'i hamgylch i'r mynachod ei ffermio ond roedd yn rhaid iddynt ei adennill o'r môr – gan barhau â gwaith y Rhufeiniaid.

Mae Allteuryn wedi cael ei gysylltu â physgota eog llanw ers amser maith, a gall hynny fod wedi tarddu o'r Priordy neu hyd yn oed o oes y Rhufeiniaid.

4 Gwarchodfa Natur Gwlyptiroedd Casnewydd

Sefydlwyd y warchodfa gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) yn 2000 i liniaru effaith colli'r cynefinoedd bywyd gwyllt yn yr ardal ar ôl cwblhau cynllun Morglawdd Bae Caerdydd. Arferai'r tir, sy'n ymestyn o Allteuryn i Aber-wysg, fod yn dir diffaith wedi'i orchuddio â lludw a oedd yn eiddo i orsaf bŵer Aber-wysg gerllaw – gorsaf a oedd yn llosgi glo.

Cafodd y lludw ei symud oddi yno a thirluniwyd y safle o'r newydd. Bellach mae 438 hectar yn gorchuddio morfa heli, gwelyau cyrs, lagwnau heli, glaswelltir gwlyb, a phrysgwydd ac maent yn gartref rhagorol i lu o rywogaethau, yn arbennig adar y gwlyptir. Caiff lefelau'r dŵr eu rheoleiddio'n ofalus i sicrhau bod y lagwnau heli yn cael digon o ddŵr y môr. Wrth i ddŵr y môr lifo i'r lagwnau, felly hefyd y pysgod a'r corgimychiaid sy'n ffynhonnell fwyd ardderchog.

5 Goleudy Dwyrain Wysg

Mae Goleudy Dwyrain Wysg yn un o ddau oleudy naill ochr i Afon Wysg ar Aber Afon Hafren. Mae'n parhau i fod yn weithredol. Yn 1893, gyda chymorth ei geffyl, llusgodd Thomas Williams y dur a ddefnyddiwyd i adeiladu'r goleudy y o Dre'ronnen i lawr y lôn gul i'r arfordir. Parhaodd ei deulu i ofalu am y goleudy am genedlaethau.
Yn wreiddiol fe'i adeiladwyd ar goesau, ond bellach mae'n rhan o'r morglawdd ac ar dir Gwarchodfa Natur y Gwlyptiroedd.

6 Canolfan y Gwlyptiroedd

Mae Canolfan y Gwlyptiroedd wedi'i hamgylchynu gan gyrs a phyllau er mwyn gwneud iddi edrych fel pe bai'n arnofio. Agorwyd y ganolfan yn 2008 a bellach caiff ei rheoli gan yr RSPB. Mae'n cynnwys siop, caffi, ac ystafell addysg a chyfleusterau cynadledda i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau yn ogystal â lle i ymwelwyr ymlacio. Gellir trefnu teithiau tywys o amgylch y Warchodfa oddi yma.

7 Gwarchodfa Dolydd Great Traston

Sefydlwyd y warchodfa gan Solutia (Eastman Industries erbyn hyn) ar y cyd â Chyngor Dinas Casnewydd ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. Mae'n cynnwys cors bori wedi'i hamgylchynu gan ffosydd sy'n creu cynefin unigryw i rywogaethau bywyd gwyllt a phlanhigion.

Mae dros 95% o ddolydd gwair Prydain wedi cael eu colli ers yr Ail Ryfel Byd oherwydd newidiadau mewn systemau rheoli tir, felly mae dolydd gwair y Warchodfa yn gynyddol bwysig o ran y planhigion prin sydd i'w gweld yno. Maent wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Y Dociau ac Aber-wysg

8 Adfer Llong Ganoloesol Casnewydd

Cafodd llong fasnach o'r bymthegfed ganrif, Llong Ganoloesol Casnewydd, ei darganfod yn 2002. Dysgwch am yr hanes a'r gwaith cadwraeth ar y coed yn y Ganolfan Ymwelwyr.

9 Golygfa o'r Dociau

O'r fan hon, gallwch weld Dociau Alexandra ar ochr arall yr Afon. Agorodd Porthladd y Gogledd ym mis Ebrill 1875. Yn 1878, wrth adeiladu'r fflôt pren, darganfuwyd Llong Lychlynnaidd o Ddenmarc mewn mwd ar ddeg acer o dir ger Porthladd y Gogledd.

Cafodd Porthladd y De ei adeiladu mewn tair rhan: agorodd y rhan ogleddol yn 1893, agorodd y rhan ddeheuol yn 1907, a chafodd y drydedd ran, y rhan olaf, gan gynnwys mynedfa Loc y De ei hagor yn swyddogol ar 14 Gorffennaf 1914 gan Ei Fawrhydi'r Tywysog Arthur o Connaught. Pan gafodd ei hagor, dyma oedd loc forol fwyaf y byd.

10 Pont Gludo Casnewydd

Mae Pont Gludo restredig Gradd 1 Casnewydd yn un o'r unig chwe Phont Gludo weithredol yn y byd, ac mae'n deyrnged ddeniadol a diddorol i beirianwaith Edwardaidd. Ar ôl agor yn 1906, roedd y dyluniad yn ateb clyfar iawn i'r broblem o groesi'r Afon Wysg lle mae ystod y llanw'n uwch na phob dinas arall yn y byd, ac mae hefyd yn galluogi llongau â mastiau tal i basio.

Mae'r bont yn agor i gychod gondola yn fras o fis Mawrth tan ddiwedd mis Medi. Mae tocynnau dydd hefyd yn cynnwys mynediad at y Tŷ Modur a'r Llwybr Cerdded Lefel Uchel. Ni fu modd cyrraedd y rhain gynt, ond maen nhw bellach ar agor yn rheolaidd. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr yn agor drwy'r flwyddyn ac mae modd i grwpiau fwynhau ymweliadau dydd a theithiau gondola drwy'r flwyddyn (os nad oes gwaith peirianneg - trefnwch ymlaen llaw).

Mae'r groesfan cychod gondola yn rhan o Lwybr yr Arfordir, ond gofynnwch cyn dod i ymweld - pan fydd bont ar gau, mae'r llwybr yn mynd ar hyd Bont SDR i fyny'r afon.

11 Pont y Ddinas (SDR)

Mae'r bont arch ddur 190 o fetrau'n ddathliad o dreftadaeth ddiwydiannol Dinas Casnewydd. Mae'n sefyll rhwng y Bont Gludo a Phont Stryd George - y bont briffordd a gynhelir gan gablau gyntaf yn y DU.

12 Oriel Gelf ac Amgueddfa Casnewydd

Mae'r Amgueddfa a'r Oriel Gelf yn adrodd stori Casnewydd o'r amseroedd cyn-hanesyddol cynharaf tan y 1900au. O ddiddordeb neilltuol y mae'r casgliadau Rhufeinig a Siartaidd.

13 Pont Gerdded Dinas Casnewydd

Mae Pont Gerdded Casnewydd yn bont gerdded a beicio sy'n cysylltu glan ddwyreiniol Afon Wysg â'r datblygiadau newydd ar y bont orllewinol. Cafodd ei hagor 100 mlynedd i'r union diwrnod ar ôl y Bont Gludo.

14 Theatr Glan-yr-Afon a'r Ganolfan Gelfyddydau

Theatr a Chanolfan Gelfyddydau lewyrchus Casnewydd yw Glan-yr-Afon, a'i nod yw cyflwyno'r celfyddydau a chreadigrwydd i gynifer o bobl â phosibl. Mae ynddo ddwy ofod theatr, stiwdios a chaffi trwyddedig.

15 Cerflun Ton Ddur

Mae hwn yn sefyll ar lan yr afon lle y bu glanfeydd masnachol ac i deithwyr yn ffynnu'n gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r cerflun yn adlewyrchu hanes Casnewydd ym maes gweithgynhyrchu dur a sylfeini'r dref ar lannau Afon Wysg. Cafodd ei ddylunio gan Peter Fink a'i godi yn 1990, ac yn rhan o'r gwneuthuriad y mae 50 tunnell o ddur haen. Mae'n 14 metr o daldra a 35 metr o hyd.

16 Castell Casnewydd

Adeiladwyd Castell Casnewydd yn y 1280au a'r 1290au gan Gilbert de Clare, Iarll Caerloyw. Mae gât ddŵr yn y tŵr canolog ger glan ddramatig yr afon, fel y gallai'r arglwydd gyrraedd ar gwch. Yr unig enghraifft gyffelyb yw 'Gât y Bradwr' yn Nhŵr Llundain. Rhwng y gornel a'r tyrau canolog roedd neuadd fawr a siambrau, ac roedd y castell cyfan o fewn ffos llanw a murlen.

Wedi'i ddiweddaru gan Ddugiaid Buckingham yn dŷ mawreddog gyda siambr wych dros y gât ddŵr, aeth yn adfail ar ôl i'r trydydd Dug gael ei ddienyddio yn 1521. Yn yr 1800au, cafodd ei drosi yn danerdy a bragdy, a heddiw mae'r safle ar agor i ymwelwyr ar gyfer digwyddiadau arbennig drwy'r flwyddyn.